



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## **Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021**

Dyddiad cyhoeddi: 11 Medi 2020  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Rhagfyr 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 at ddiben cymeradwyo nanis fel darparwyr gofal plant ac i ganiatáu i rieni hawlio budd-daliadau/rhyddhad treth perthnasol gan Lywodraeth y DU tra byddant yn cyflogi nani a gymeradwywyd o dan y cynllun.

Bwriedir i'r cynllun newydd ddisodli Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref (y cyfeirir yn gyffredinol ato fel y "Cynllun Nanis").

**Sut i ymateb**

Gellir e-bostio ymatebion at:  
[trafodgofalplant@llyw.cymru](mailto:trafodgofalplant@llyw.cymru)

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 4 Rhagfyr 2020.

**Gwybodaeth  
bellach a  
dogfennau  
perthnasol**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Gofal Plant a Chwarae  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [trafodgofalplant@llyw.cymru](mailto:trafodgofalplant@llyw.cymru)

**Hefyd ar gael yn  
Saesneg yn:**

<https://gov.wales/nannies-childcare-providers>

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu dileu
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gymeradwyo nanis fel darparwyr gofal plant ac i ganiatáu i rieni hawlio budd-daliadau/rhyddhad treth perthnasol, er enghraifft Credydau Treth neu Gredyd Cynhwysol, mewn perthynas â chyflogi 'nani'.

### Cefndir

Mae'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref yn gynllun gwirfoddol ar gyfer cymeradwyo darparwyr gofal plant yn y cartref ("nanis") sy'n bodloni meini prawf sylfaenol penodol. Cyflwynwyd y cynllun i gyflawni'r ymrwymiad yn Strategaeth Gofal Plant Cymru (Tachwedd 2005) i sicrhau bod rhieni sy'n defnyddio ymarferwyr gofal plant yn eu cartref yn cael y dewis o ddefnyddio nanis sydd wedi ceisio cymeradwyaeth wirfoddol.

Un o'r rhesymau gwreiddiol dros sefydlu Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 oedd caniatáu i rieni wneud hawliadau am dreth gofal plant neu gonsesiynau budd-daliadau. O dan y telerau a gymhwysir gan Lywodraeth y DU, dim ond mewn perthynas â darparwyr gofal plant 'cymeradwy' y gellid hawlio'r arian hwnnw. Gan nad yw nanis o fewn y categorïau o ddarparwyr gofal plant y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gydag AGC, gan ddangos eu bod wedi'u cymeradwyo, dyfeisiwyd y cynllun yn rhannol i fynd i'r afael â'r bwch hwnnw. Roedd cynnwys nanis ar y cynllun yn eu cymeradwyo fel gofalwyr plant cymwys at y dibenion hynny.

Mae'r budd-daliadau/rhyddhad treth sydd ar gael i rieni yn cynnwys credyd cynhwysol, credydau treth gwaith, credydau treth plant a gofal plant di-dreth.

Beth rydym yn ei olygu wrth "nani" a'r math o ofal plant a ddarperir yn y cyd-destun hwn? Dyma sut y mae'r cynllun newydd yn diffinio gofal plant a ddarperir gan "nani":

Ystyr gofal plant cymhwysol yw gofal a ddarperir gan berson am gydnabyddiaeth ar gyfer—

- (a) plentyn neu blant i rieni penodol ("y rhieni cyntaf") yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y rhieni cyntaf, neu
- (b) plentyn neu blant i rieni penodol ("y rhieni cyntaf"), ac yn ychwanegol ar gyfer plentyn neu blant i rieni gwahanol ("yr ail rieni"), yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y rhieni cyntaf neu'r ail rieni, neu yn y ddau gartref.

Nid yw gofal plant cymhwysol yn cynnwys—

- (a) gwarchod plant sy'n ddarostyngedig i gofrestrriad yn unol â Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(1)
- (b) gofal a ddarperir gan berson am gydnabyddiaeth ar gyfer plentyn sy'n 12 oed neu'n hŷn, ac eithrio yn unol ag is-baragraff (1)(a) neu (b)
- (c) gofal plant a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref rhiant y plentyn, gan riant neu berthynas i'r plentyn, neu
- (d) gofal plant a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref perthynas i'r plentyn pan na fo'r gofal hwnnw fel arfer yn cael ei ddarparu ond mewn cysylltiad ag un neu ragor o blant gan riant neu berthynas.

Nid yw nanis a gymeradwywyd o dan y cynllun yn ddarostyngedig i reoliad statudol ond rhaid iddynt fodloni meini prawf penodol, gan gynnig o leiaf lefel sylfaenol o sicrwydd i'r teuluoedd sy'n eu cyflogi.

Galluogodd Cynllun 2007 nanis i wneud cais am gymeradwyaeth o 12 mis. Y meini prawf ar gyfer cymeradwyo oedd bod yr ymgeisydd:

- yn 18 oed neu'n hŷn;
- yn meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf bediatrig berthnasol;
- â chymhwyster sydd ar restr gan Weinidogion Cymru neu'r Corff Cymeradwyo; a
- heb ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant, neu heb ei ystyried fel arall yn anaddas i weithio gyda phlant neu i fod yn eu cwmni heb oruchwyliaeth.

Ym mis Chwefror 2019, diddymwyd adran 12 o Ddeddf Credydau Treth 2002 yn sgil cyflwyno Gorchymyn Deddf Diwygio Lles 2012 (Cychwyn Rhif 32 a Darpariaethau Arbedion a Throsiannol) 2019 (a oedd yn sail gyfreithiol i Gynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 ("Cynllun Nanis 2007"). Er gwaethaf cyfnod o darfu byr yn ystod misoedd Mawrth-Awst, rydym wedi gallu gweithio gyda'n partneriaid yn Llywodraeth y DU, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau, i sicrhau y gellir parhau i gymeradwyo nanis yng Nghymru ac nad yw teuluoedd yn colli budd-daliadau pwysig tra datblygir cynllun newydd.

Ar hyn o bryd, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n rheoli cymeradwyaethau ar gyfer Cynllun Nanis 2007 fel y corff cymeradwyo ar ran Gweinidogion Cymru, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i hynny newid o dan y cynllun newydd.

## **Diben yr ymgynghoriad hwn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun drafft newydd i ddisodli Cynllun Nanis 2007 a byddai'n croesawu sylwadau gan bobl sydd â diddordeb neu y gallai'r newid effeithio arnynt.

Y teitl sy'n cael ei gynnig ar gyfer y cynllun newydd yw Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021. Byddwn yn cyfeirio ato o hyn ymlaen yn y ddogfen hon fel "y Cynllun Nanis newydd".

## **Gyda phwy rydym yn ymgynghori?**

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r Cynllun Nanis newydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ac rydym yn gwahodd pobl i roi eu hadborth erbyn 4 Rhagfyr 2020. Ymhlith y rhanddeiliaid rydym yn eu targedu er mwyn clywed eu barn mae:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru

- CWLWM, y sefydliad ambarél sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal plant yng Nghymru. Mae Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY) yn aelod o CWLWM, a chanddi hi y bydd y diddordeb pennaf;
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant
- Awdurdodau Lleol
- Nanis a theuluoedd sy'n cyflogi nanis
- Asiantaethau nanis yng Nghymru

## **Amserlen/Blaenoriaethau**

Hoffai Gweinidogion Cymru i'r Cynllun Nanis newydd gael ei greu a'i gydnabod yng nghyfraith Llywodraeth y DU cyn gynted â phosibl. Rydym yn rhoi cyfnod o 12 wythnos i randdeiliaid ystyried y cynllun a rhoi adborth a sylwadau.

## **Y Cynllun Nanis Newydd (yr hyn sy'n wahanol i'r cynllun presennol)**

Mae'r Cynllun Nanis newydd yn debyg yn fras i'r cynllun presennol ond mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y cyfle i wneud rhai newidiadau.

Mae'r prif newidiadau'n ymwneud â:

- (i) Meini prawf cymeradwyo
- (ii) Eglurder ynghylch pryd y dylai person wneud cais i adnewyddu ei gymeradwyaeth
- (iii) Darparu gwybodaeth i'r corff cymeradwyo
- (iv) Gwrthod neu dynnu'n ôl y gymeradwyaeth a chyflwyno sylwadau

Amlinellir y newidiadau yn fanylach isod ac mae yna hefyd gwestiynau penodol yr ydym yn ceisio adborth arnynt.

### **(i) Meini Prawf Cymeradwyo**

Mae'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y Cynllun Nanis newydd wedi'u diwygio – chwe maen prawf sydd bellach, fel y nodir isod:

Rhaid i berson sy'n cyflwyno cais am gymeradwyaeth fel darparwr gofal plant cymeradwy yn y cartref—

- (a) fod yn 18 oed neu'n hŷn,
- (b) bod wedi cael un o'r cymwysterau a bennir mewn rhestr a gynhelir gan y corff cymeradwyo neu unrhyw berson arall a benodir gan Weinidogion Cymru,
- (c) meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf berthnasol,
- (d) meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n cwmpasu marwolaeth, anaf, difrod neu golled arall,
- (e) darparu tystysgrif cofnod troseddol manwl neu gyflwyno cais i gael y dystysgrif honno gan y corff cymeradwyo, a;
- (f) peidio â bod wedi ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant(2), neu ei ystyried fel arall yn anaddas i weithio gyda phlant neu i fod yn eu cwmni heb oruchwyliaeth.

---

2 Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cadw rhestr o unigolion nad yw'r gyfraith yn caniatáu iddynt weithio gyda phlant.

### **Cwestiwn 1**

A ydych yn cytuno â'r chwe maen prawf arfaethedig ar gyfer cymeradwyo?

### **Cwestiwn 2**

A ydych yn cytuno mai dim ond i nanis 18 oed ac yn hŷn y dylid rhoi cymeradwyaeth?

### **Cwestiwn 3**

Rydym wedi ychwanegu y gofyniad i nani gael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, sy'n sicrhau bod y Cynllun Nanis newydd yn cyd-fynd â chynlluniau gwledydd eraill y DU. Ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn achosi problem i nanis na fydd yn gallu ymuno â'r cynllun cymeradwyo, ond sy'n dymuno gwneud hynny?

#### **(ii) Gwneud cais i adnewyddu cymeradwyaeth**

Mae'r Cynllun Nanis newydd yn ei gwneud yn glir y bydd angen i berson sy'n dymuno adnewyddu ei gymeradwyaeth wneud cais i adnewyddu cymeradwyaeth o leiaf 42 diwrnod cyn i'w gymeradwyaeth ddod i ben.

Rhaid i nani sy'n ceisio cymeradwyaeth fodloni'r meini prawf canlynol.

(1) Rhaid i berson sy'n cyflwyno cais i adnewyddu cymeradwyaeth o dan y Cynllun hwn

- (a) ddarparu tystysgrif cymorth cyntaf berthnasol i'r corff cymeradwyo,
- (b) bod wedi cael un o'r cymwysterau a bennir mewn rhestr a gynhelir gan y corff cymeradwyo,
- (c) darparu tystysgrif cofnod troseddol manwl neu gais am y dystysgrif honno i'r corff cymeradwyo,
- (d) meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n cwmpasu marwolaeth, anaf, difrod neu golled arall, a
- (e) peidio â bod wedi ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant(3), neu ei ystyried fel arall yn anaddas i weithio gyda phlant neu i fod yn eu cwmni heb oruchwyliaeth.

### **Cwestiwn 4**

A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o adnewyddu cymeradwyaeth?

#### **(iii) Darparu gwybodaeth i'r corff cymeradwyo**

Mae'r cynllun newydd yn gofyn i nanis cymeradwy hysbysu'r corff cymeradwyo os cânt eu collfarnu o drosedd neu os cânt rybudd, a hynny cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Gallai methu â hysbysu'r corff cymeradwyo arwain at dynnu cymeradwyaeth y nani yn ôl.

### **Cwestiwn 5**

Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

#### **(iv) Gwrthod neu dynnu'n ôl y gymeradwyaeth a chyflwyno sylwadau**



Mae'r Cynllun Nanis newydd yn nodi'r broses ar gyfer gwrthod neu dynnu cymeradwyaethau yn ôl ac yn egluro bod yn rhaid i'r corff cymeradwyo ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i wrthod cymeradwyaeth neu ei thynnu'n ôl. Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig gynnwys y rhesymau pam y bwriedir gwrthod cymeradwyaeth neu ei thynnu'n ôl, ynghyd â gwybodaeth am sut i gyflwyno sylwadau.

Mae gan yr ymgeisydd 28 diwrnod i gyflwyno sylwadau i'r corff cymeradwyo. Os bydd ymgeisydd yn bwrw ymlaen â'r broses o gyflwyno sylwadau, penodir penderfynwr nad yw wedi ymwneud â'r cais ymlaen llaw. Mae'n ofynnol i'r corff cymeradwyo hysbysu'r ymgeisydd o ganlyniad y broses o fewn 28 diwrnod ar ôl iddo gyflwyno ei sylwadau. Caiff y Corff Cymeradwyo atal cymeradwyaeth nani ar unwaith lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, ond bydd hyn yn ddarostyngedig i ganlyniad y broses o gyflwyno sylwadau.

### **Cwestiwn 6**

Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

### **Crynodeb o'r Ymatebion**

Yn dilyn y broses ymgynghori, caiff crynodeb o'r ymatebion ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2021 cyn i'r Cynllun terfynol gael ei gyhoeddi.

**Ffurflen Ymateb  
i'r  
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle y bo'n berthnasol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Meini Prawf Cymeradwyo**

**Cwestiwn 1**

A ydych yn cytuno â'r chwe maen prawf arfaethedig ar gyfer cymeradwyo?

**Cwestiwn 2**

A ydych yn cytuno mai dim ond i nanis 18 oed ac yn hŷn y dylid rhoi cymeradwyaeth?

**Cwestiwn 3**

Rydym wedi ychwanegu y gofyniad i nani gael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, sy'n sicrhau bod y Cynllun Nanis newydd yn cyd-fynd â chynlluniau gwledydd eraill y DU. Ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn achosi problem i nanis na fydd yn gallu ymuno â'r cynllun cymeradwyo, ond sy'n dymuno gwneud hynny?

**Gwneud cais i adnewyddu cymeradwyaeth**

**Cwestiwn 4**

A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o adnewyddu cymeradwyaeth?

**Darparu gwybodaeth i'r corff cymeradwyo**

**Cwestiwn 5**

Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

**Gwrthod neu dynnu'n ôl y gymeradwyaeth a chyflwyno sylwadau**

**Cwestiwn 6**

Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

**Arall**

**Cwestiwn 7**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

## Atodiad A

**2020 Rhif (Cy. )**

# **GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU**

## **Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2020**

### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn darparu ar gyfer cymeradwyo darparwyr gofal plant yn y cartref, y cyfeirir atynt yn aml fel nanis neu au pairs.

Nid oes unrhyw ofyniad i ddarparwyr gofal plant yn y cartref geisio cymeradwyaeth o dan y Cynllun, fodd bynnag efallai y gall rhieni sy'n cael gofal plant yn y cartref a gymeradwyir drwy'r Cynllun gael help gyda chostau gofal plant, drwy gael budd-daliadau megis credydau treth plant, elfen gofal plant Credyd Cynhwysol, y cynllun talebau gofal plant a Gofal Plant Di-dreth.

Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau gweinyddol sy'n ofynnol er mwyn cymeradwyo darparwyr gofal plant yn y cartref.

Mae Rhan 1 yn nodi ystyr y termau gofal plant cymhwysol a darparwr gofal plant yn y cartref.

Mae Rhan 2 yn nodi'r system ar gyfer cymeradwyo ac adnewyddu o dan y Cynllun, ac am faint y bydd y gymeradwyaeth yn para ar y mwyaf. Mae paragraff 10 yn galluogi'r corff cymeradwyo i adennill y ffi am gael tystysgrif cofnod troseddol manwl oddi wrth y ceisydd.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth gan y corff cymeradwyo, a'r gofynion sydd ar ddarparwyr gofal plant yn y cartref a gymeradwyir o dan y Cynllun i hysbysu'r corff cymeradwyo am unrhyw droseddau, neu am unrhyw rybuddiadau a gafwyd.

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer proses sy'n galluogi person i herio penderfyniad gan y corff cymeradwyo i wrthod cymeradwyaeth neu ei thynnu'n ôl o dan y Cynllun.

Mae Rhan 5 yn nodi'r darpariaethau trosiannol pan ddaw'r Cynllun hwn yn effeithiol.

**2020 Rhif (Cy. )**

# **GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU**

## **Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2020**

Mae'r Cynllun hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(4).

## Enwi a chychwyn

- 2.—(1) Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2020.  
(2) Daw'r Cynllun hwn yn weithredol ar xxx.

## Dehongli

### 3. Yn y Cynllun hwn—

ystyr “y corff cymeradwyo” (“*the approval body*”) yw Gweinidogion Cymru neu unrhyw berson arall a benodir gan Weinidogion Cymru i weinyddu'r cynllun;

ystyr “Cynllun 2007” (“*the 2007 Scheme*”) yw'r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007(5);

ystyr “darparwr gofal plant yn y cartref” (“*home childcare provider*”) yw person sy'n darparu gofal plant cymhwysol neu sy'n bwriadu ei ddarparu;

mae i “gofal plant cymhwysol” (“*qualifying childcare*”) yr ystyr a roddir ym mharagraff 5;

ystyr “perthynas” (“*relative*”) mewn perthynas â phlentyn, yw llys-riant, tad-cu/taid neu fam-gu/nain, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus);

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw person o dan 16 oed, ond mae person sy'n cyrraedd 16 oed yn parhau i fod yn blentyn at ddibenion Rhan 1 o'r dyddiad pan gyrhaeddodd yr oedran hwnnw tan yn union cyn 1 Medi sy'n dilyn y dyddiad hwnnw;

mae “rhiant” (“*parent*”) yn cynnwys unrhyw berson—

- (a) y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn, o fewn yr ystyr a roddir i “parental responsibility” yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989(6);
- (b) sydd wedi ei gymeradwyo fel rhiant maeth, o fewn yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2 o Reoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(7);
- (c) sy'n maethu plentyn yn breifat, o fewn yr ystyr a roddir i “to foster a child privately” yn adran 66 o Ddeddf Plant 1989;

ystyr “tystysgrif cofnod troseddol manwl” (“*enhanced criminal records certificate*”) at ddiben y Cynllun hwn yw dystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(8), sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr “suitability information relating to children” yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno);

ystyr “tystysgrif cymorth cyntaf berthnasol” (“*relevant first aid certificate*”) yw dystysgrif mewn cysylltiad â chwrs hyfforddiant cymorth cyntaf—

- (d) sy'n addas i ofal babanod a phlant;
- (e) sy'n cynnwys hyfforddiant yn y meysydd a ganlyn—
  - (i) ymdrin ag argyfyngau,
  - (ii) dadebru,
  - (iii) tagu,
  - (iv) sioc, a
  - (v) sioc anaffylactig;

---

(5) O.S. 2007/226 (Cy. 20) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/2687 (Cy. 237), O.S. 2011/993 (Cy. 146), O.S. 2010/2582 (Cy. 21) (p.123)1/577 (Cy. 82), O.S. 2013/2273 (Cy. 219) ac O.S. 2016/28 (Cy. 47).  
(6) 1989 p. 41.  
(7) O.S. 2019/169 (Cy. 42).  
(8) 1997 p. 50.

- (f) y mae'r ceisydd wedi ymgymryd ag ef heb fod yn fwy na thair blynedd cyn y dyddiad y gwneir y cais am gymeradwyaeth.

## RHAN 1

### Gofynion y Cynllun

#### Gofynion y Cynllun

4. Mae person yn ddarparwr gofal plant yn y cartref a gymeradwywyd o dan y Cynllun hwn—

- (i) os yw wedi ei gymeradwyo gan y corff cymeradwyo yn unol â pharagraff 4;
- (ii) mewn cysylltiad â darparu gofal plant cymhwysol ganddo.

#### Darparwr gofal plant yn y cartref

5.—(1) Caiff darparwr gofal plant yn y cartref wneud cais i'r corff cymeradwyo am gymeradwyaeth o dan y Cynllun.

(2) Os yw'r corff cymeradwyo wedi ei fodloni bod y meini prawf cymeradwyo wedi eu bodloni rhaid iddo roi cymeradwyaeth.

(3) Mae person y mae cymeradwyaeth wedi ei rhoi iddo o dan is-baragraff (2) yn peidio â bod yn berson sydd wedi ei gymeradwyo felly os yw'r gymeradwyaeth honno wedi ei thynnu'n ôl gan y corff cymeradwyo.

(4) Caiff y corff cymeradwyo dynnu cymeradwyaeth yn ôl os yw wedi ei fodloni nad yw'r meini prawf cymeradwyo yn cael eu bodloni mwyach gan y person hwnnw.

#### Gofal plant cymhwysol

6.—(1) Ystyr gofal plant cymhwysol yw gofal a ddarperir gan berson am gydnabyddiaeth ar gyfer—

- (a) plentyn neu blant i rieni penodol (“y rhieni cyntaf”), yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y rhieni cyntaf, neu
- (b) plentyn neu blant i rieni penodol (“y rhieni cyntaf”), ac yn ychwanegol ar gyfer plentyn neu blant i rieni gwahanol (“yr ail rieni”), yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y rhieni cyntaf neu'r ail rieni neu yn y ddau gartref.

(2) Nid yw gofal plant cymhwysol yn cynnwys—

- (a) gwarchod plant sy'n ddarostyngedig i gofrestrriad yn unol â Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(9),
- (b) gofal a ddarperir gan berson am gydnabyddiaeth ar gyfer plentyn sy'n 12 oed neu'n hŷn ac eithrio yn unol ag is-baragraff (1)(a) neu (b),
- (c) gofal plant a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref rhiant y plentyn gan riant neu berthynas i'r plentyn, neu
- (d) gofal plant a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref perthynas i'r plentyn pan na fo'r gofal hwnnw fel arfer yn cael ei ddarparu ond mewn cysylltiad ag un neu ragor o blant gan riant neu berthynas.

## RHAN 2

### System gymeradwyo

## System gymeradwyo

7.—(1) Rhaid i'r corff cymeradwyo weithredu system ar gyfer penderfynu ceisiadau am gymeradwyaeth a wneir iddo o dan y Cynllun hwn a rhaid iddo wneud trefniadau digonol i roi cyhoeddusrwydd i fanylion y system honno.

(2) Rhaid i'r system y cyfeirir ati yn is-baragraff (1)—

- (a) darparu ar gyfer gweithdrefn y caniateir i geisydd wneud cais drwyddi am gymeradwyaeth,
- (b) nodi gofynion sy'n ymwneud â cheisydd yn darparu tystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddangos bod y meini prawf cymeradwyo wedi eu bodloni,
- (c) darparu ar gyfer gweithdrefn y caniateir i gymeradwyaethau gael eu tynnu'n ôl drwyddi,
- (d) darparu bod y ceisydd yn cael hysbysiad ysgrifenedig mewn cysylltiad â phenderfyniad i roi neu wrthod cymeradwyaeth neu ei thynnu'n ôl,
- (e) darparu ar gyfer gweithdrefn i wirio a yw unigolyn wedi ei gymeradwyo o dan y Cynllun, ac
- (f) darparu ar gyfer cadw cofnodion priodol sy'n ymwneud â cheisiadau am gymeradwyaeth a gafwyd, gan gynnwys cofnodion sy'n ymwneud â rhoi neu wrthod cymeradwyaeth o'r fath neu ei thynnu'n ôl.

## Meini prawf cymeradwyo

8. O ran person sy'n cyflwyno cais am gymeradwyaeth fel darparwr gofal plant yn y cartref a gymeradwywyd—

- (a) rhaid iddo fod yn 18 mlwydd oed neu drosodd,
- (b) rhaid bod ganddo un o'r cymwysterau a bennir mewn rhestr a gynhelir gan y corff cymeradwyo,
- (c) rhaid iddo ddal tystysgrif cymorth cyntaf berthnasol,
- (d) rhaid bod ganddo yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n cwmpasu marwolaeth, anaf, difrod neu golled arall,
- (e) rhaid iddo ddarparu tystysgrif cofnod troseddol manwl neu gais am y dystysgrif honno i'r corff cymeradwyo, ac
- (f) ni chaniateir iddo fod wedi ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant(10) ac ni chaniateir iddo gael ei ystyried fel arall yn anaddas i weithio gyda phlant neu i fod yn eu cwmni heb oruchwyliaeth.

## Cyfnod cymeradwyaeth

9.—(1) Rhaid i gymeradwyaeth o dan y Cynllun hwn ddatgan cyfnod ei dilysrwydd ac ni chaiff y cyfnod hwnnw fod yn hwy na 12 mis.

(2) Nid oes dim yn y paragraff hwn yn rhagfarnu cymhwyso paragraff (4).

## Adnewyddu cymeradwyaeth

10.—(1) Mae'n ofynnol i berson sy'n dymuno parhau'n ddarparwr gofal plant yn y cartref a gymeradwywyd yn unol â'r Cynllun hwn wneud cais i adnewyddu cymeradwyaeth o leiaf 42 o ddiwrnodau cyn y daw ei gymeradwyaeth i ben.

(2) O ran person sy'n cyflwyno cais i adnewyddu cymeradwyaeth o dan y Cynllun hwn—

- (a) rhaid iddo ddarparu tystysgrif cymorth cyntaf berthnasol i'r corff cymeradwyo,
- (b) rhaid bod ganddo un o'r cymwysterau a bennir mewn rhestr a gynhelir gan y corff cymeradwyo,
- (c) rhaid iddo ddarparu tystysgrif cofnod troseddol manwl neu gais am y dystysgrif honno i'r corff cymeradwyo,
- (d) rhaid bod ganddo yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n cwmpasu marwolaeth, anaf, difrod neu golled arall, ac

---

(10) Mae'r rhestr wahardd yn rhestr a gynhelir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o unigolion sydd wedi eu hatal yn ôl y gyfraith rhag gweithio gyda phlant.

- (e) ni chaniateir iddo fod wedi ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant(11) ac ni chaniateir iddo gael ei ystyried fel arall yn anaddas i weithio gyda phlant neu i fod yn eu cwmni heb oruchwyliaeth.

### **Ffioedd**

- 11.** Caiff y corff cymeradwyo adennill y gost o gael tystysgrif cofnod troseddol manwl mewn cysylltiad â chais ynghyd ag unrhyw gostau gweinyddol rhesymol yr eir iddynt wrth brosesu'r cais—
- (a) am gymeradwyaeth fel darparwr gofal plant yn y cartref o dan y Cynllun, neu
  - (b) i adnewyddu cymeradwyaeth fel darparwr gofal plant yn y cartref o dan y Cynllun.

## **RHAN 3**

### **Darparu gwybodaeth**

#### **Darparu gwybodaeth i'r corff cymeradwyo**

**12.**—(1) Pan fo person sydd wedi ei gymeradwyo fel darparwr gofal plant yn y cartref o dan y Cynllun hwn wedi ei euogfarnu o drosedd pa un ai yng Nghymru neu mewn man arall, mae'n ofynnol iddo hysbysu'r corff cymeradwyo cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gan ddarparu manylion ynghylch—

- (a) dyddiad a man yr euogfarn,
- (b) y drosedd y mae'r person wedi ei euogfarnu ohoni, ac
- (c) y gosb a osodwyd ar y person mewn cysylltiad â'r drosedd.

(2) Pan fo person sydd wedi ei gymeradwyo fel darparwr gofal plant yn y cartref o dan y Cynllun hwn yn cael rhybuddiad pa un ai yng Nghymru neu mewn man arall, mae'n ofynnol iddo hysbysu'r corff cymeradwyo yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gan ddarparu manylion ynghylch—

- (a) y drosedd y mae'r person wedi cael rhybuddiad amdani,
- (b) dyddiad y rhybuddiad, ac
- (c) unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y rhybuddiad.

(3) Caiff unrhyw fethiant i hysbysu'r corff cymeradwyo yn unol ag is-baragraff (1) neu (2) arwain at dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl yn unol â pharagraff 4(4).

#### **Darparu gwybodaeth gan y corff cymeradwyo**

**13.** Rhaid i'r corff cymeradwyo roi—

- (a) i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ("CThEM") unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol ganddynt er mwyn cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau CThEM sy'n ymwneud â chredydau treth, gofal plant di-dreth a'r cynllun talebau gofal plant, a honno'n wybodaeth sy'n ymwneud â chymeradwyo, neu wrthod cymeradwyo, bersonau o dan y Cynllun hwn, neu dynnu cymeradwyaeth y personau hynny yn ôl:
- (b) i'r Ysgrifennydd Gwladol unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol ganddo er mwyn cyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â chredyd cynhwysol, a honno'n wybodaeth sy'n ymwneud â chymeradwyo, neu wrthod cymeradwyo, bersonau o dan y Cynllun hwn, neu dynnu cymeradwyaeth y personau hynny yn ôl.

## RHAN 4

### Sylwadau

#### Gwrthod cymeradwyaeth neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl

14.—(1) Os yw'r corff cymeradwyo yn cynnig gwrthod cais am gymeradwyaeth neu adnewyddiad, neu dynnu cymeradwyaeth a roddwyd o dan y Cynllun hwn yn ôl, rhaid iddo ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o'i gynnig i'r ceisydd neu'r darparwr gofal plant yn y cartref a gymeradwywyd.

(2) Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig o'r cynnig a ddarperir yn unol ag is-baragraff (1) gynnwys—

- (a) rhesymau pam y cynigir gwrthod cymeradwyaeth neu ei thynnu'n ôl, a
- (b) gwybodaeth ynghylch sut y caniateir cyflwyno sylwadau.

(3) Caiff y ceisydd gyflwyno sylwadau pa un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig mewn cysylltiad â'r cynnig o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyroddi'r hysbysiad ysgrifenedig.

(4) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan is-baragraff (1) ni chaiff y corff cymeradwyo benderfynu unrhyw gynnig hyd nes bod naill ai—

- (a) unrhyw sylwadau wedi eu cyflwyno gan y ceisydd,
- (b) y ceisydd wedi hysbysu nad yw'n bwriadu cyflwyno unrhyw sylwadau, neu
- (c) y cyfnod pan fo sylwadau yn gallu cael eu cyflwyno wedi mynd heibio.

(5) Caiff y corff cymeradwyo gyhoeddi ei fod yn atal dros dro gymeradwyaeth, ar unwaith, pan fo hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol ac yn briodol, wrth aros am benderfyniad ar y cynnig.

#### Y broses sylwadau

15. Rhaid i'r broses sylwadau—

- (a) darparu ar gyfer penodi penderfynwr nad yw wedi cael unrhyw ymwneud blaenorol â'r cais, a
- (b) darparu i'r ceisydd gael ei hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad y broses sylwadau, a'r rhesymau drosto, o fewn 28 o ddiwrnodau i gael y sylwadau.

#### Rôl y penderfynwr

16. Wrth wneud penderfyniad mewn perthynas â'r cynnig caiff y penderfynwr—

- (i) cadarnhau cynnig y corff cymeradwyo i wrthod cymeradwyaeth fel darparwr gofal plant yn y cartref neu ei thynnu'n ôl,
- (ii) cadarnhau'r sylwadau a rhoi neu adnewyddu cymeradwyaeth fel darparwr gofal plant yn y cartref o dan y Cynllun hwn, neu
- (iii) cadarnhau'r sylwadau gan ganiatáu i'r gymeradwyaeth barhau.

## RHAN 5

### Arbedion a darpariaethau trosiannol

#### Arbedion a darpariaethau trosiannol

17.—(1) Er gwaethaf y ffaith bod y Cynllun hwn wedi dod i rym, pan fo person eisoes wedi ei gymeradwyo fel darparwr gofal plant o dan Gynllun 2007, mae'r gymeradwyaeth honno yn parhau i gael effaith hyd nes y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn, sef—

- (a) y dyddiad pryd y tynnir y gymeradwyaeth yn ôl yn unol â pharagraff 6(2) o Gynllun 2007,
- (b) y dyddiad pryd y daw'r gymeradwyaeth i ben yn unol â pharagraff 10(1) o Gynllun 2007, neu
- (c) y dyddiad pryd y rhoddir cymeradwyaeth fel darparwr gofal plant yn y cartref yn unol â'r Cynllun hwn.



(2) Pan fo cais am gymeradwyaeth fel darparwr gofal plant wedi cael ei gyflwyno, yn unol â Chynllun 2007 ond nad yw wedi cael ei ganiatáu na'i gymeradwyo eto gan y corff cymeradwyo cyn [mewnoder y dyddiad], mae'r cais i'w benderfynu o dan y Cynllun hwn.

*Enw*

Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad